# Y Pwyllgor Busnes: cyfarfod cyhoeddus

## Cofnodion cryno : BC(3)04-11 : 1 Chwefror 2011

**Amser: 8.45 – 9.15**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 4 – Ty Hywel**

### Aelodau'r Pwyllgor yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, Meirionnydd Dwyfor
Jane Hutt, Bro Morgannwg
Jocelyn Davies, Dwyrain De Cymru
Nick Ramsay, Mynwy
Peter Black, Gorllewin De Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Is-adran Busnes y Cynulliad a Deddfwriaeth
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth
Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes
Llinos Madeley, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

### Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol (25 Ionawr 2011)

2.1 Nododd y Pwyllgor Busnes gofnodion y cyfarfod cyhoeddus blaenorol ar 25 Ionawr 2011.

### Eitem 3: Newidiadau arfaethedig mewn perthynas â busnes cynnar yn dilyn etholiad Cynulliad (diwygio Rheol Sefydlog 7)

**Papur: BC(3)04-11 Papur 1**

**Papur: BC(3)04-11 Papur 1 – Atodiad A**

**Papur: BC(3)04-11 Papur 1 – Atodiad B**

**3.1 Penderfynu ar fusnes cynnar cyn penodi aelodau'r Pwyllgor Busnes**

3.1.1 Cytunodd y Rheolwr Busnes mewn egwyddor i:

i) ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd a benodwyd yn y Cynulliad blaenorol bennu amser a dyddiad y cyfarfod llawn cyntaf ar ôl etholiad Cynulliad, wedi iddo ymgynghori â'r grwpiau gwleidyddol; ychwanegu Rheol Sefydlog 7.5B newydd;

ii) i ganiatáu i'r Llywydd sydd newydd ei ethol bennu dyddiadau ac amseroedd y cyfarfodydd nes bod y Pwyllgor Busnes wedi'i sefydlu, a bod y cyhoeddiad ar y datganiad busnes cyntaf wedi'i wneud: ychwanegu Rheolau Sefydlog 7.5C a 7.5D newydd;

iii) cyfyngu ar y mathau o fusnes y caniateir eu trafod yn ystod y cyfarfodydd llawn hynny: ychwanegu Rheol Sefydlog 7.5E newydd;

iv) ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid cael cytundeb y Cynulliad cyn y caiff y broses o enwebu Prif Weinidog fynd rhagddi: ychwanegu Rheol Sefydlog 7.5Ea newydd; a

v) diwygiadau eraill i Reol Sefydlog 7 a geir yn Atodlen A: ychwanegu Rheolau Sefydlog 7.5F a 7.5G newydd.

### Eitem 4: Newidiadau arfaethedig sy'n ymwneud â Chynigion Cydsyniad Deddfwriaethol (Rheol Sefydlog 26)

**Papur: BC(3)04-11 Papur 2**

**Papur: BC(3)04-11 Papur 2 – Atodiad A**

**Papur: BC(3)04-11 Papur 2 – Atodiad B**

**4.1 Cydsyniad mewn perthynas â Mesurau Senedd y DU: Rheol Sefydlog 26A**

4.1.1 Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i:

i) gadw cwmpas presennol Rheol Sefydlog 26, ond i ychwanegu darpariaethau sy'n caniatáu cyfeirio memoranda cydsyniad deddfwriaethol at bwyllgorau craffu i'w hystyried, a hynny o fewn terfyn amser a bennir gan y Pwyllgor Busnes: ychwanegu Rheolau Sefydlog 26.3A a 26.3B newydd; a

ii) creu gofyniad na chaniateir trafod unrhyw gynnig cydsyniad deddfwriaethol nes i'r pwyllgor gyflwyno adroddiad arno neu nes bod y dyddiad cau ar gyfer ei gyflwyno wedi mynd heibio: ychwanegu Rheol Sefydlog 26.6 newydd.

**4.2 Hysbysu mewn perthynas â Mesurau Senedd y DU: Rheol Sefydlog 26A**

4.2.1 Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i gyflwyno darpariaeth er mwyn i'r Cynulliad gael ei hysbysu, drwy ddatganiad ysgrifenedig, am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad (ar wahân i'r rheini sy'n dod o dan y Rheol Sefydlog 26 bresennol) a swyddogaethau Gweinidogion Cymru.

4.2.2 Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ystyried geiriad newydd ar gyfer Rheol Sefydlog 26A.1, a gyflwynwyd gan y Llywodraeth, y tu allan i'r Pwyllgor.